CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Mehefin 12, 2018 am 7.30 o'r gloch.

AGENDA

Gweddi

1. Ymddiheuriadau:

2. Datgan diddordeb:

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 8, 2018

4. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 8, 2018

Llythyr (15/5/2018) oddi wrth Elfed ap Gomer yn rhoi gwybod nid yw'n hawlio'r £150.00 sydd ar gael iddo fel Cynghorydd Cymuned am y flwyddyn ariannol bresennol.

5. Materion Ariannol

a. Bil (16//05/17) am £326.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd at gasglu gwastraff masnachol o Fynwent Llanelltyd o 1/4/2017 i 31/3/2018. Llynedd y gost oedd £307.00.

b. Bil (14/5/5018) am £75.00 oddi wrth Mr Edward Harries am adnewyddu y ddau hysbysfwrdd yn Llanelltyd. Cytunwyd y pris yn Cofnodion Ionawr 9, 2018, Eitem4, Eitem 8.ch.

c. Galwad ffôn (1/5/2018) oddi wrth Archwilydd Mewnol angen dogfennau'r Cyngor ar 6/5/2018.

ch. Balans yn y banc ar 29 Mai 2018: £9,636.56.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr ateb(11/5/2018), ateb i Eitem 4. Eitem 10.d. yn Cofnodion Rhagfyr 12, 2017 ynglŷn â lleoli sied ar dir ger Hafod Fach, Llanelltyd. Maent yn rhoi gwybod cafwyd cyfarfod gyda'r perchennog y tir a dywedodd bod y sied fach yn cael ei defnyddio ar gyfer storio offer ac nid yw'n cael ei ddefnyddio'n aml oherwydd ei chyflwr gwael. Oherwydd maint y sied nid yw'n ddelfrydol i weithredu'n ffurfiol. Mae'r perchennog mewn cysylltiad â Swyddog Coedwigaeth yr Awdurdod i blannu coed ar y tir ac am godi sied newydd yn lle'r un bresennol ac mae'n ymwybodol bydd angen caniatâd cynllunio am y sied.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (15/5/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod cynhelir Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Neuadd Gymunedol Llanbedr ar ddydd Mercher, Mehefin 23 am 7.00yh. Bydd Dilwyn Owen Williams a Dyfrig Siencyn o Gyngor Gwynedd yn bresennol i drafod materion yn ymwneud a chydweithio rhwng Cynghorau Cymuned a Thref a Chyngor Gwynedd, ac yn benodol am drosglwyddo asedau a gwasanaethau.

Amgáu mae Agenda y Cyfarfod Blynyddol, Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhaliwyd yn Chwefror 2018, Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol a gynhalwyd ar Faes y Sioe Frenhinol, Llanfair ym Muallt ym mis Mawrth 2018, a rhestr o gyrsiau bydd ar gael.

b. Llythyr (23/5/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith torri gwair yn cael ei wneud yn Llanelltyd ar 14/.5/2018 a 24/7/2018. Bydd y gwaith yn cychwyn ar y Cefnffyrdd yna ymlaen i'r Ffyrdd Sirol.

c. Anfonwyd cerdyn (30.5/2018) i Mr a Mrs Geraint Rowlands yn eu llongyfarch ar enedigaeth merch.

ch. Llythyr hir (29/4/2018) oddi wrth Mrs Clare Harries, Wrexham yn cwyno am gyflwr gwael Toiledau Bontddu ac yn dweud nid ydynt i safon dderbyniol.

d. Llythyr (7/6/2018) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopi o Reolau Sefydlog newydd 2018.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

10. Materion Brys